Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**
—
National Assembly for Wales
**Committee on Assembly Electoral Reform**

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Rhagfyr 2019

Annwyl Cadeirydd,

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Fel y gwyddoch, cafodd y **Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2019. Ei gylch gwaith yw archwilio argymhellion y **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i rannu eich barn ar y goblygiadau posibl i bwyllgorau'r Cynulliad a allai ddeillio o unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Yn benodol, byddem yn croesawu sylwadau eich Pwyllgor ar y materion a ganlyn:

- Pa un a yw maint cyfredol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau o ran gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn mynd ati i wneud gwaith craffu ar bolisïau, deddfwriaeth a materion ariannol yng nghyd-destun y materion hynny sydd o fewn eich cylch gwaith.

- Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwyliedig i bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar gylch gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn ymgymryd â'ch rôl.

- Pa un a allai cynnydd ym maint y Cynulliad arwain at unrhyw oblygiadau o ran gwaith pwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu cael.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDiwygio@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddReform@assembly.wales,
0300 200 6565

Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut y mae eich Pwyllgor yn asesu effaith ei waith craffu, ac enghreifftiau o waith craffu effeithiol neu enghreifftiau o gyfleoedd a gollwyd. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn **dydd Llun 27 Ionawr 2019.**

Byddaf yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Ionawr 2020 er mwyn rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor, neu os ydych o’r farn y byddai'n ddefnyddiol i chi gwrdd â rhywun i drafod y materion hyn, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, Helen Finlayson drwy anfon neges e-bost at **SeneddDiwygio@cynulliad.cymru** neu drwy roi galwad ar 0300 200 6341.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.